Adders are Amazing! Gwiberod Gwych!

NADROEDD - SICR, ANSICR NEU OFN?

CYFLWYNIAD

Pan fyddwch yn dechrau gweithio gydag unrhyw grŵp newydd, mae'n bwysig darganfod faint y maent yn ei wybod am nadroedd, a sut y mae nadroedd yn gwneud iddynt deimlo. Yn anochel, bydd 'arbenigwyr' brwdfrydig yn rhan o'r grŵp, ond efallai y bydd eraill sy'n ofn neu sydd â ffobia, a llawer mwy sydd ddim yn gwybod sut y maent yn teimlo. Rydym wedi datblygu ffordd o dorri'r ia, er mwyn annog pawb i gymryd rhan a dweud beth y maent yn ei wybod a sut y mae nadroedd yn gwneud iddynt deimlo. Mae hwn yn faes sensitif, ac felly mae'n bwysig canmol plant am yr hyn y maent yn ei wybod (yn enwedig os ydynt yn ofnus), a sicrhau nad yw'r rheiny sy'n ofn neu'n bryderus yn teimlo'n ynysig neu'n teimlo bod pobl yn chwerthin amdanynt. Byddwch yn empathetig! Defnyddiwch enghraifft o ofnau eraill sydd gennym, efallai - mae pawb yn wahanol ac nid nhw sy'n 'anghywir'. Anogwch y rheiny sydd ddim yn siŵr i ymuno ac i ddarganfod mwy.

DEFNYDDIAU:

- Grŵp o gyfranogwyr, unrhyw faint
- Cynorthwywyr sy'n oedolion (e.e. rhieni, athrawon) os ydych yn gweithio gyda phlant
- Ardal fach agored (dan do/allan yn y awyr agored)
- Propiau nadroedd y Deyrnas Unedig sydd yr un maint â rhai go iawn (dewisol)
- Lluniau wedi eu hargraffu a'u lamineiddio o nadroedd o ardal leol y grŵp ac ymlusgiaid eraill sy'n frodorol i'r DU, NEU sioe sleidiau yn defnyddio lluniau mawr o'r anifeiliaid hyn
- Darnau o raff wedi eu torri yr un hyd â'n nadroedd brodorol a nadroedd defaid (*slow-worms*), wedi eu cuddio mewn bag. Gallech roi peithon 8m o hyd yn y bag hefyd am hwyl! (dewisol)

GWNEWCH!

1 Argraffwch ffotograffau mawr o nadroedd ac ymlusgiaid eraill o'r Deyrnas Unedig. Lamineiddiwch fel eu bod yn para'n dda. Neu, gallech greu sioe sleidiau, gan ddibynnu ar y cyfleusterau sydd gennych. Mae delweddau ar gael i'w defnyddio trwy ARG UK (gweler 'Adnoddau').

2 Gofynnwch i bawb ddisgrifio pa mor gryf y maent yn teimlo am nadroedd, trwy eu gosod mewn trefn. Gofynnwch iddynt ffurfio rhes, gyda'r rheiny sydd wrth eu bodd gyda nadroedd ar un pen, y rheiny sydd ddim yn siŵr yn y canol a'r rheiny sydd ddim yn eu hoffi ar y pen arall. Mae hyn yn gweithio orau gyda phlant, ond mae hefyd yn gweithio gydag oedolion! Cyfrwch faint sydd ymhob categori (ddim yn hoffi, ddim yn siwr, hoffi).

GWNEWCH!

3 Dywedwch wrth y grŵp ei bod hi'n 'amser am gwis'! Rydych chi eisau gweld os ydynt yn gallu adnabod ein hymlusgiaid ni yma yn y Deyrnas Unedig. Daliwch i fyny / dangoswch bob llun yn araf. Dangoswch y wiber olaf, oherwydd mae'r rhan fwyaf o blant ac oedolion yn tybio mai gwiber yw neidr y gwair - mae hyn yn gwneud y gweithgaredd yn hwyl ac yn datgelu tipyn!

4 Nawr, gofynnwch am wirfoddolwyr (os ydych yn gweithio gyda grŵp mewn ysgol, gallai fod yn ddefnyddiol gofyn i'r athro i'ch helpu i ddewis). Gofynnwch iddynt i estyn i mewn i'r bag o raffau a dangos i'r dosbarth. Rhaid i'r grŵp cyfan ddyfalu pa raff yw pa neidr neu neidr ddefaid, ar sail ei hyd. Gofynnwch iddyn nhw bleidleisio. BRON BOB TRO byddant yn dewis hyd neidr y gwair fel y wiber! Defnyddiom ni neidr y gwair (1m), gwiber (60cm) a'r neidr ddefaid (35cm) a pheithon rhwyllog 8m o hyd (y neidr hiraf ar gofnod) i weld os oeddent yn gwybod beth ydyw!

5 Os oes gennych nadroedd ffug, gofynnwch am wirfoddolwyr gwahanol i'w tynnu allan o fag neu gynhwysydd. Siaradwch â'r dosbarth am nodweddion sy'n eu galluogi i adnabod y nadroedd. Defnyddiwch y props a/neu'r lluniau fel cymorth i ddangos y gwahaniaethau rhwng y nadroedd gwrywaidd a benywaidd. Dyma rai lledr yr ydym wedi eu creu ar gyfer y prosiect Gwiberod Gwych.

6 Wedi i chi wneud eich gweithgareddau gyda'r grŵp (e.e. taith ymlusgiaid, gêm y gadwyn fwyd neu ddarnau o waith celf creadigol fel y gwiberod clai neu'r swynoglau), gofynnwch i'r rheiny sy'n cymryd rhan feddwl eto am eu teimladau tuag at nadroedd. Gofynnwch iddyn nhw ffurfio rhes unwaithe eto, i weld os oes unrhyw un wedi symud at gategori arall - a oes unrhyw un/rai o'r grŵp 'ansicr' wedi symud at y grŵp 'hoffi'? Dyma'r canlyniad arferol, ac mae'n wych cadarnhau hyn a dathlu gyda nhw!



